ATODIAD A/APPENDIX A
Adroddiad Cynghorydd Gorffennaf 2012

1)Pasiwyd y Cais Cynllunio i godi 54 o dai ger y Wern ym Mwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Gan fod hawl i ddatblygu y cae wedi ei nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ers 2009, roedd yn anodd canfod rhesymau cynllunio i'w wrthod. Bydd 12 o dai rhent cymdeithasol yn cael eu codi a'u rhoi i Tai Eryri ac fe fydd 7 o dai ar werth i bobl leol am bris llai na'r farchnad. Does ond gobeithio y bydd teuluoedd lleol neu o ardaloedd agos yn prynu'r gweddill. Dywed y cwmni na fyddan nhw yn codi tai nes eu bod yn sicr fod galw amdanyn nhw. Pasiwyd fod gwella'r cae ysgol i ddigwydd cyn i bobl symud mewn i'r stad newydd. Yn diweddar iawn, cytunodd y cwmni i edrych ar greu mynediad gwahanol a byddaf yn trafod hyn ymhellach efo nhw gan fod nifer fawr o bentrefwyr yn bryderus am ddiogelwch y ffordd.

3)Rhoddwyd caniatad i Gyngor Gwynedd fwrw mlaen gyda chynllun i greu Llwybr Aml Bwrpas newydd ar drac yr hen reilffordd yn Ffordd Caernarfon. Cytunwyd i drafod materion yn ymwneud a mynedfa Cwrt Menai a materion eraill gyda'r pentrefwyr ac fe fydd y cynlluniau yn cael eu harddangos yn y pentref yn yr hydref a'r gwaith yn cychwyn yn fuan wedyn. Arian grant o Lywodraeth Cymru fydd yn talu am y cynllun.

4)Fe fydd y gwaith o greu Canolfan Meddygol newydd sbon yn dechrau ar Awst 13. Dyma newyddion da fydd yn creu cyfleusterau newydd i'r pentref ac yn helpu lleihau problemau parcio ger yr hen feddygfa.

Councillors' Report July 2012

1)An application to pass 54 houses near Y Wern has been passed by Gwynedd Council's Planning Committee. As the field is included for development in the Local Development Plan since 2009, it was difficult to find planning reasons for refusal. Of these,12 will be social rent housing for Tai Eryri and 7 will be sold to local people at below market prices. It can only be hoped that the rest will be for local families or from families from the local area. The company says it will not be building houses until they are confident they will be sold. It was passed that improvements to the school playing fields be carried out before people move into the new estate. Very recently, the company agreed to look to creating a different access and I will be discussing this with them as a number of villagers are worried about road safety.

3)Gwynedd Council has been given the green light to proceed with a scheme to create a multi-user Path on the old railway line near Caernarfon Road. It was agreed to discuss matters concerning the entrance to Cwrt Menai and other matters with the villagers and the plans will be shown in the village in the autumn with the work starting soon after that. The scheme will be paid for through a grant from the Welsh Government.

4)The work of building a brand new Medical Centre will start on August 13. This is good news that will create modern facilities for the village and help reduce parking congestion near the present surgery.